



**DEDDF DRWYDDEDU 2003**  
**TRWYDDED ANHEDDAU**

Cyngor Sir **Ceredigion** County Council



ydded anheddau

**PRM 0169 (25/11/2021)**

- Manylion am y safle

**Cyfeiriad post y safle, neu os nad oes un, cyfeirnod map ordnans neu ddisgrifiad**

**MEDINA**

**10 STRYD Y FARCED**

**Tref bost**  
**ABERYSTWYTH**

**Cod Post**  
**SY23 1DL**

**Rhif ffôn**  
**01970 623 500**

**Os oes cyfyngiad ar yr amser, y dyddiadau**

**NID OES CYFYNGIADAU AMSER AR Y DRWYDDED**

**Gweithgareddau trwyddedadwy a ganiateir gan y drwydded**

**ADLONIANIANT WEDI EI REOLEIDDIO:**  
**CERDDORIAETH FYW**  
**CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO**

**DARPARU LLUNIAETH POETH YN HWYR YN Y NOS**

**GWERTHU ALCOHOL**

**Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy**

**ADLONIAINT WEDI EI REOLEIDDIO:**

**CERDDORIAETH FYW**

**CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO**

**LLUN – SAD: 1100 – 0100 yn ddyddiol**

**SUL: 1200 – 2230 yn ddyddiol**

**DARPARU LLUNIAETH POETH YN HWYR YN Y NOS**

**LLUN – SAD: 2300 – 0130 yn ddyddiol**

**GWERTHU ALCOHOL**

**LLUN – SAD: 1000 – 0100 yn dyddiol**

**SUL: 1100 – 2230 yn ddyddiol**

**Oriau agor y safle**

**LLUN – SAD: 0700 – 0130 yn ddyddiol**

**SUL: 0800 – 2300 yn ddyddiol**

**Os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol, a yw hyn yn golygu ar gyfer yfed ar y safle neu oddi yno**

**AR AC ODDI AR Y SAFLE**

**Enw, cyfeiriad (cofrestredig), rhif ffôn ac e-bost (os yw'n berthnasol)  
deilydd y drwydded safle**

**MEDINA RASHIDAH REES**

**Rhif cofrestredig y deilydd, er enghraifft rhif cwmni, rhif elusen (os yw'n  
berthnasol)**

**10157870**

**Enw, cyfeiriad a rhif ffôn Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded  
safle yn caniatáu cyflenwi alcohol**

**MEDINA REES**

**Rhif trwydded bersonol ac enw'r awdurdod sy'n rhoi'r drwydded bersonol  
a ddelir gan y Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn  
caniatáu cyflenwi alcohol**

**CER 0611**

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

## **Atodiad 1 – Amodau Mandadol**

### **Amodau mandadol os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol**

- (1) Ni ellir cyflenwi alcohol o dan drwydded safle-
  - (a) ar adeg pan na fydd goruchwyliwr safle dynodedig ar gyfer trwydded safle, neu
  - (b) ar adeg pan na fydd gan y goruchwyliwr safle dynodedig drwydded bersonol neu pan fydd ei drwydded bersonol wedi'i hatal.
- (2) Mae'n rhaid i unrhyw alcohol a gyflenwir o dan y drwydded safle gael ei gyflenwi neu ei awdurdodi gan berson sydd â thrwydded bersonol.

### **Amod Mandadol pan fo'r Drwydded Safle yn cynnwys Amod bod yn rhaid i un neu ragor o unigolion fod yn yr adeilad i gyflawni dyletswyddau diogelwch ar amseroedd penodol:**

- (1) Mae'n rhaid i bob unigolyn o'r fath fod wedi'i drwyddedu gan yr Awdurdod Diwydiant Diogelwch.
- (2) Ond nid oes unrhyw beth yn (1) uchod sy'n golygu bod yn rhaid gorfodi'r fath amod—
  - (a) o ran safleoedd sydd ym mharagraff 8(3)(a) o Restr 2 y Ddeddf Diwydiant Diogelwch Personol 2001 (c. 12) (safleoedd sydd â thrwydded safle sy'n caniatáu dramâu neu ffilmiau), neu
  - (b) o ran safleoedd mewn perthynas ag—
    - (i) unrhyw achlysur a grybwyllir ym mharagraff 8(3)(b) neu (c) o'r Rhestr honno (safleoedd a ddefnyddir yn gyfan gwbl gan glwb sydd â thystysgrif clwb, o dan rybudd digwyddiad drosdro sy'n caniatáu dramâu neu ffilmiau neu o dan drwydded gamblo), neu
    - (ii) unrhyw achlysur sydd ym mharagraff 8(3)(d) o'r Rhestr honno (achlysuron wedi'u pennu gan reoliadau o dan y Ddeddf honno).
- (3) At ddibenion yr adran hon—
  - (a) mae "gweithgaredd diogelwch" yn golygu gweithgaredd y mae paragraff 2(1)(a) o'r Rhestr honno yn berthnasol iddo, ac
  - (b) mae paragraff 8(5) o'r Rhestr honno (dehongli cyfeiriadau at achlysur) yn berthnasol gan ei bod yn berthnasol o ran paragraff 8 o'r Rhestr honno.

## Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2014

### Yn effeithiol o 6 Ebrill 2014

1. Rhaid i berson perthnasol sicrhau na chaiff unrhyw alcohol ei werthu na'i gyflenwi i'w yfed ar y safle nac oddi arno am bris sy'n llai na'r pris a ganiateir.

2. At ddibenion yr amod a nodir ym mharagraff 1-

(a) mae "treth" i'w dehongli yn unol â Deddf Trethi ar Ddiodydd Alcoholaidd 1979(6);

(b) "y pris a ganiateir" yw'r pris a geir drwy ddefnyddio'r fformiwla –

$$P = D + (D \times V)$$

pan mai –

(i) P yw'r pris a ganiateir

(ii) D yw cyfradd y dreth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol, a

(iii) V yw cyfradd y dreth ar werth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth ar werth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol

(c) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae trwydded safle mewn grym, yw –

(i) Deiliad y drwydded safle,

(ii) Goruchwylydd dynodedig y safle (os oes un) mewn perthynas â thrwydded o'r fath, neu

(iii) Deiliad trwydded bersonol sy'n cyflenwi alcohol o dan drwydded o'r fath neu sy'n caniatáu iddo gael ei gyflenwi;

(d) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae tystysgrif safle clwb mewn grym, yw unrhyw un o aelodau neu swyddogion y clwb sy'n bresennol ar y safle mewn rôl sy'n galluogi'r aelod neu'r swyddog i atal y cyflenwad o dan sylw; ac

(e) ystyr “treth ar werth” yw treth ar werth sy’n daladwy yn unol â Deddf Treth ar Werth 1994(7)

3. Os nad yw’r pris a ganiateir a roddir gan Baragraff (b) o baragraff 2 (ar wahân i’r paragraff hwn) yn rhif cyfan o geiniogau, rhaid cymryd mai’r pris a roddir gan yr is-baragraff hwnnw yw’r pris a roddir mewn gwirionedd gan yr is-baragraff hwnnw wedi’i dalgrynnu i fyny i’r geiniog agosaf.
4. (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys os yw’r pris a ganiateir gan Baragraff (b) o baragraff 2 ar y naill ddiwrnod (“y diwrnod cyntaf”) yn wahanol i’r pris a ganiateir ar y diwrnod nesaf (“yr ail ddiwrnod”) o ganlyniad i newid i gyfradd y dreth neu’r dreth ar werth.

(2) Mae’r pris a ganiateir sy’n gymwys ar y diwrnod cyntaf yn gymwys i werthiant neu gyflenwad alcohol sy’n digwydd cyn i’r cyfnod o 14 diwrnod sy’n dechrau ar yr ail ddiwrnod ddod i ben.

Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) (Diwygio)  
2014

Mae'r Amodau Gorfodol isod yn **disodli** Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2010 a daethant i rym ar **1 Hydref 2014**.

**Mae amodau 1 i 4 yn cyfeirio at yr holl safleoedd sy'n gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle. Mae amod 3 yn berthnasol i safleoedd sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle.**

1. (1) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau nad yw staff ar y safle perthnasol yn ymgymryd â, yn trefnu neu'n cymryd rhan mewn unrhyw hyrwyddo anghyfrifol mewn perthynas â'r safle.

(2) Yn y paragraff hwn, mae hyrwyddo anghyfrifol yn golygu un neu fwy o'r gweithgareddau a ganlyn, neu weithgareddau sy'n sylweddol debyg, sy'n digwydd er mwyn hyrwyddo gwerthiant neu gyflenwad o alcohol i'w yfed ar y safle -

(a) gemau neu weithgareddau eraill sy'n gofyn am neu'n hybu, neu sydd wedi'u dylunio i ofyn neu i hybu unigolion i -

(i) yfed swm o alcohol o fewn cyfyngiad amser (heblaw yfed alcohol a werthwyd neu a gyflenwyd ar y safle cyn terfyn y cyfnod y mae'r unigolyn cyfrifol wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol), neu

(ii) yfed cymaint o alcohol â phosib (un ai mewn cyfyngiad amser neu fel arall);

(b) darparu swm diddiwedd neu amhenodol o alcohol am ddim neu am bris penodedig neu ar ddisgownt i'r cyhoedd neu i grŵp a gaiff ei ddiffinio gan nodwedd benodol sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(c) darparu alcohol am ddim neu ar ddisgownt neu unrhyw beth arall fel gwobr i annog neu i wobrwyo prynu ac yfed alcohol dros gyfnod o 24 awr neu lai mewn modd sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(d) gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad â phosteri neu bamffledi ar, neu yng nghyffiniau'r safle, a ellir ei ystyried yn rhesymol fel ei fod yn caniatáu, neu'n annog neu'n cyfeirio at effeithiau meddwdod ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn modd ffafriol;

(e) unigolyn yn tywallt alcohol yn uniongyrchol i geg unigolyn arall (heblaw pan fo unigolyn yn methu yfed heb gymorth oherwydd anabled).

**2.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau fod dŵr yfed am ddim yn cael ei ddarparu ar gais i gwsmeriaid pan fod hyn ar gael yn rhesymol.

**3. (1)** Rhaid i ddeilydd y drwydded eiddo neu ddeilydd y dystysgrif eiddo clwb sicrhau y gweithredir polisi gwirio oed ar y safle mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi alcohol.

(2) Rhaid i oruchwyliwr dynodedig y safle mewn perthynas â'r drwydded eiddo sicrhau bod gwerthiant alcohol ar y safle yn digwydd yn unol â'r polisi gwirio oed.

(3) Rhaid i'r polisi fynnu bod unigolion sy'n edrych dan 18 oed i'r person cyfrifol (neu'r oed hŷn a nodir yn y polisi) ddangos ar gais, cyn cael prynu alcohol, tystiolaeth yn cynnwys eu llun, dyddiad geni a naill ai -

(a) marc holograffig, neu

(b) nodwedd uwchfioled.

**4.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau -

(a) os caiff unrhyw un o'r diodydd alcoholig canlynol eu gwerthu neu eu cyflenwi i'w hyfed ar y safle (heblaw am ddiodydd alcohol sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi ar ôl eu gwneud yn barod i'w gwerthu mewn cynhwysydd wedi'i gau'n ddiogel), bydd yr alcohol ar werth i gwsmeriaid yn y mesurau a ganlyn -

(i) cwrw neu seidr: ½ pint;

(ii) jin, rym, fodca neu wisgi: 25 ml neu 35 ml; a

(iii) gwin llonydd mewn gwydryn: 125 ml;

(b) caiff y mesurau hyn eu dangos mewn bwydlen, ar restr brisiau neu ddeunydd printiedig arall sydd ar gael i gwsmeriaid ar y safle; a

(c) lle nad yw cwsmer, mewn perthynas â gwerthiant alcohol, yn manylu ar y swm o alcohol i'w werthu, bydd y gwerthwr yn hysbysu'r cwsmer fod y mesurau hyn ar gael.



## Atodiad 2 – Amodau sy'n gyson â'r Rhestr weithredu

**Yn sgil Mân Amrywiad a benderfynwyd ar 16eg Hydref 2014 a 26ain Hydref 2016 amrywiwyd yr amodau, gan ddiwygio'r rhaglen weithredu fel isod. Roedd hyn hefyd yn cynnwys cynllun safle diwygiedig.**

### Hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu:

#### a. **Cyffredinol – Pob un o'r pedwar amcan trwyddedu:**

- Darparu awyrgylch digynnwrf, gwaraidd, cerddoriaeth dawel, gwasanaethau caffi yn ogystal â chyfleusterau bar.
- Mae lle ar gyfer 140 ar y safle.
- Defnydd o'r Dderbynfa ar ôl 9pm ar nos Wener a nos Sadwrn i groesawu a chyfarch cwsmeriaid.

#### b. **Atal Troseddau ac Anhrefn:**

- Cyfyngir y niferoedd i 140.
- Cyfyngir cerddoriaeth fyw i ardaloedd a nodir ar y cynllun, ar gyfer digwyddiadau arbennig a archebwyd ymlaen llaw, neu gyda mynediad cyfyngedig.
- Dim ail-fynediad ar ôl canol nos.
- Polisi o beidio â hyrwyddo diodydd rhad i geisio atal ymddygiad anghyfrifol.
- System CCTV fel a ganlyn:
  1. 16 o gamerâu - ymhob ystafell, y coridorau a'r mynedfeydd, a thu allan i flaen yr adeilad.
  2. Lliw Llawn.
  3. Recordio dros gyfnod o 30 diwrnod.
  4. Gallu gwyllo'r delweddau ar gais, a'u copïo i gyfrwng storio gan ddefnyddio meddalwedd MS safonol (disg, ffon gof USB ac ati).
  5. Gweithredu'n barhaus.
  6. Modd ei wyllo a'i recordio o bell o ffôn symudol, cyfrifiadur neu dabled.
  7. Yr holl staff goruchwyllo wedi'u hyfforddi i weithio a defnyddio'r system.
  8. Y system mewn stafell glo.
  9. Is-derfynell wedi'i lleoli yn y bar i wyllo'r fynedfa flaen, y llyfrgell (y stafell i'r chwith o'r fynedfa), y cwrt allanol ac ystafell y prifathro (y stafell i'r dde o'r fynedfa).
- Er bod y safle'n gweithredu fel bwyty yn bennaf, ni fydd unrhyw ofyniad i fod yn aelod o'r cynllun BOBB/Pubwatch na gofyniad am staff SIA. Y diffiniad a dderbyniwn ar gyfer barnu bod y safle'n fwyty yw bod yr alcohol yn cael ei werthu trwy weini byrddau a bod y rhan fwyaf o'r alcohol yn cael i weini i fynd gyda phryd o fwyd. Os nad dyna'r achos ar unrhyw adeg, yna bydd yr amodau blaenorol yn cael eu hail-osod.

#### c. **Diogelwch Cyhoeddus:**

- Cyfyngir y niferoedd i 140 yn unol â'r capasiti a nodwyd gan yr Awdurdod Tân.

**d. Atal Niwsans Cyhoeddus:**

- Cedwir cerddoriaeth wedi'i recordio ar lefel cerddoriaeth gefndir
- Cedwir cerddoriaeth fyw ar lefel is nag un allai aflonyddu ar drigolion y fflat uwchben
- Dim ail-fynediad ar ôl hanner nos
- Gosodir arwyddion ar ddrysau allanfeydd yn gofyn i gwsmeriaid adael yn dawel a pharchu'r cymdogion.

**e. Amddiffyn Plant Rhag Niwed:**

- Rydym yn gweithredu polisi 'Challenge 25'.

**Atodiad 3 – Amodau yn atodedig yn sgil gwrandawriad gan yr awdurdod trwyddedu/cyfarfod cyfryngu**

# Atodiad 4 – Cynlluniau

